

LIC25-67

BWYD, CYMRU

CYNHYRCHION A REOLEIDDIR, CYMRU

BWYD A BWYD ANIFEILIAID A ADDASWYD YN ENETIG

Pennu statws awdurdodi: awdurdodi rhoi cynnyrch ar y farchnad sy'n cynnwys, wedi'u creu o, neu wedi'u cynhyrchu o indrawn DP4114 × MON 810 × MIR604 × NK603 a addaswyd yn enetig, ac is-gyfuniadau ohonynt.

Nodyn egluro

(nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r penderfyniad)

Gwnaed y penderfyniad hwn ar gyfer Cymru gan Weinidogion Cymru yn arfer y pwerau a roddwyd gan Erthygl 7 (bwyd) ac Erthygl 19 (bwyd anifeiliaid) o Reoliad ([EUR 1829/2003](#)) Senedd Ewrop a'r Cyngor ar fwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig (EUR 2003/1829).

Mae'n awdurdodi rhoi cynnyrch ar y farchnad sy'n cynnwys, sydd wedi'u creu o, neu sydd wedi'u cynhyrchu o indrawn DP4114 × MON 810 × MIR604 × NK603 a addaswyd yn enetig, ac is-gyfuniadau ohonynt. Mae telerau'r awdurdodiad a'r amodau y mae'r cynhyrchion yn cael eu hawdurdodi oddi tanynt wedi'u nodi yn yr Atodlen.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad ([EC](#)) [Rhif 178/2002](#) Senedd Ewrop a'r Cyngor sydd yn gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau mewn materion diogelwch bwyd (EUR 2002/178).

Penderfyniad

Cymhwyso a dod i rym

- Mae'r penderfyniad hwn yn berthnasol i Gymru, a daw i rym ar 13eg Hydref 2025.

Dehongliad

2. Yn y penderfyniad hwn -

Ystyr "Rheoliad 1829/2003" yw Rheoliad (EC) Rhif 1829/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar fwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig (EUR 2003/1829); Ystyr "Rheoliad 1830/2003" yw Rheoliad (EC) Rhif 1830/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n ymwneud ag olrhain a labelu organebau a addaswyd yn enetig ac olrhain cynnyrch bwyd a bwyd anifeiliaid a grëir o organebau a addaswyd yn enetig ac sy'n diwygio Cyfarwyddeb 2001/18/EC (EUR 2003/1830);

Ystyr "Penderfyniad 2009/770" yw Penderfyniad 2009/770/EC y Comisiwn sy'n sefydlu fformatau safonol ar gyfer adroddiadau sy'n cyflwyno canlyniadau monitro rhyddhau organebau a addaswyd yn enetig i'r amgylchedd yn fwriadol, mewn cynhyrchion i'r diben o'u rhoi ar y farchnad, yn unol â Chyfarwyddeb 2001/18/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor (EUDN 2009/770).

3. Bydd unrhyw ymadrodd a ddefnyddiwyd yn y penderfyniad hwn hefyd yn cael eu defnyddio yn Rheoliad 1829/2003, a byddant yn rhannu'r un ystyr ag sydd ganddynt yn y Rheoliad hwnnw.

Pennu statws awdurdodi cynhyrchion sy'n cynnwys, sydd wedi'u creu o, neu sydd wedi'u cynhyrchu o indrawn DP4114 × MON 810 × MIR604 × NK603 a addaswyd yn enetig ac is-gyfuniadau ohonynt

4. Awdurdodir cynhyrchion sy'n cynnwys, sydd wedi'u creu o, neu sydd wedi'u cynhyrchu o indrawn DP4114 × MON 810 × MIR604 × NK603 a addaswyd yn enetig ac is-gyfuniadau ohonynt yn unol â'r amodau a'r gofynion a nodir yn yr Atodlen ac yn ddarostyngedig iddynt.

Sarah Murphy

Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

6 Hydref 2025

ATODLEN

Organeb a addaswyd yn enetig a'i ddynodwr unigryw

1. At ddibenion Erthyglau 7(3) a 19(3) o Reoliad 1829/2003, pennir y dynodwyr unigryw canlynol ar gyfer indrawn DP4114 × MON 810 × MIR604 × NK603 a addaswyd yn enetig ac is-gyfuniadau ohonynt—

- (a) DP-ØØ4114-3 x MON-ØØ81Ø-6 x SYN-IR6Ø4-5 x MON-ØØ6Ø3-6 ar gyfer indrawn DP4114 × MON 810 × MIR604 × NK603 a addaswyd yn enetig;
- (b) SYN-IR6Ø4-5 x MON-ØØ6Ø3-6 x DP-ØØ4114-3 ar gyfer indrawn MIR604 × NK603 × DP4114 a addaswyd yn enetig;
- (c) MON-ØØ81Ø-6 x MON-ØØ6Ø3-6 x DP-ØØ4114-3 ar gyfer indrawn MON 810 × NK603 × DP4114 a addaswyd yn enetig;
- (d) MON-ØØ81Ø-6 x SYN-IR6Ø4-5 x DP-ØØ4114-3 ar gyfer indrawn MON 810 × MIR604 × DP4114 a addaswyd yn enetig;
- (e) MON-ØØ81Ø-6 x SYN-IR6Ø4-5 x MON-ØØ6Ø3-6 ar gyfer indrawn MON 810 × MIR604 × NK603 a addaswyd yn enetig;
- (f) MON-ØØ6Ø3-6 x DP-ØØ4114-3 ar gyfer indrawn NK603 × DP4114 a addaswyd yn enetig;
- (g) SYN-IR6Ø4-5 x DP-ØØ4114-3 ar gyfer indrawn MIR604 × DP4114 a addaswyd yn enetig;
- (h) SYN-IR6Ø4-5 x MON-ØØ6Ø3-6 ar gyfer indrawn MIR604 × NK603 a addaswyd yn enetig;
- (i) MON-ØØ81Ø-6 x DP-ØØ4114-3 ar gyfer indrawn MON 810 × DP4114 a addaswyd yn enetig;
- (j) MON-ØØ81Ø-6 x SYN-IR6Ø4-5 ar gyfer indrawn MON 810 × MIR604 a addaswyd yn enetig.

Awdurdodiad

2. Mae'r cynhyrchion canlynol wedi'u hawdurdodi at ddibenion Erthyglau 4(2) a 16(2) o Reoliad 1829/2003, yn unol â'r amodau a nodir yn yr Atodlen hon—

(a) bwydydd a chynhwysion bwyd sy'n cynnwys neu sydd wedi'u greu o'r indrawn a addaswyd yn enetig y cyfeirir ato ym mharagraff 1;

(b) bwyd anifeiliaid sy'n cynnwys neu sydd wedi'u greu o'r indrawn a addaswyd yn enetig y cyfeirir ato ym mharagraff 1;

(c) cynhyrchion sy'n cynnwys neu wedi'i greu o'r indrawn a addaswyd yn enetig y cyfeirir ato ym mharagraff 1, at ddefnyddiau heblaw y rhai a ddarperir ar eu cyfer yn is-baragraffau (a) a (b), ac eithrio trin y tir.

Labelu

3. (1) At ddibenion y gofynion labelu yn Erthyglau 13(1) a 25(2) o Reoliad 1829/2003, ac yn Erthygl 4(6) o Reoliad 1830/2003, 'maize' yw enw'r organeb.

(2) Rhaid i'r geiriau 'not for cultivation' ymddangos ar label ac ar ddogfennau sy'n cyd-fynd â chynhyrchion sy'n cynnwys neu wedi'u greu o indrawn wedi'i addasu'n enetig fel y cyfeirir ato ym mharagraff 1, ac eithrio bwyd a chynhwysion bwyd.

Dull canfod

4. (1) At ddibenion Erthyglau 7(3) a 19(3) o Reoliad 1829/2003, mae'r dulliau a bennir yn is-baragraff (2) i'w defnyddio ar gyfer canfod yr indrawn a addaswyd yn enetig y cyfeirir ato ym mharagraff 1.

(2) Mae'r dulliau wedi'u nodi fel a ganlyn:

(a) ar gyfer DP-ØØ4114-3, y ddogfen o'r enw "[Event-specific Method for the Quantification of maize DP-ØØ4114-3 DP-ØØ4114-3 by Real-time PCR](#)", sydd â'r cyfeirnod "EURL-VL-02/14VP" ac a gyhoeddwyd ar 11 Ebrill 2018;

(b) ar gyfer MON-ØØ81Ø-6, y ddogfen o'r enw "[CRL assessment on the validation of an event specific method for the relative quantitation of maize line MON 810 DNA using real-time PCR as carried out by Federal Institute for Risk Assessment \(BfR\)](#)", sydd â'r cyfeirnod "CRL-VL-25/04VR" ac â'r dyddiad 10 Mawrth 2006;

(c) ar gyfer SYN-IR6Ø4-5, y ddogfen o'r enw "[Event-specific Method for the Quantification of Maize Line MIR604 Using Real-time PCR](#)", â'r dyddiad 03 Ebrill 2007 ac â'r cyfeirnod "CRLVL04/05VP corrected version 1 30/03/2010";

(d) ar gyfer MON-ØØ6Ø3-6, y ddogfen o'r enw "[Event-specific method for the quantitation of maize line NK603 using real-time PCR](#)", sydd â'r cyfeirnod "CRLVL27/04VP" ac a gyhoeddwyd ar 10 Ionawr 2005.

(3) Mae'r dull o echdynnu DNA i'w ddefnyddio yn y dulliau canfod a bennir yn is-baragraff (2) wedi'i nodi yn y ddogfen o'r enw "[Report on the In-house Validation of a DNA Extraction Method from Ground Maize Seeds and Validated DNA Extraction Method](#)", cyfeirnod "EURL-VL-02/14XP" ac â'r dyddiad 10 Ebrill 2018;

(4) At ddibenion Erthyglau 7(3) a 19(3) o Reoliad 1829/2003, mae'r deunydd cyfeirio "AOCS 0607-A2" (ar gyfer SYN-IR6Ø4-5) i'w gael gan yr American Oil Chemists' Society yn <https://www.aocs.org/crm>, mae "ERM®-BF439" (ar gyfer DP-ØØ4114-3), "ERM®-BF413" (ar gyfer MON-ØØ81Ø-6) ac "ERM®-BF415" (ar gyfer MON-ØØ6Ø3-6) i'w gael gan [Ganolfan Ymchwil ar y Cyd \(JRC\) y Comisiwn Ewropeaidd](#).

Cynllun ar gyfer monitro effeithiau amgylcheddol

5. (1) Rhaid i ddeiliad yr awdurdodiad sicrhau bod y cynllun monitro ar gyfer effeithiau amgylcheddol a oedd yn cyd-fynd â'r cais am awdurdodiad ar gyfer yr indrawn a addaswyd yn enetig y cyfeirir ato ym mharagraff 1, cyfeirnod "RP1506", a gyflwynwyd i'r Awdurdod Diogelwch Bwyd ar 31 Mawrth 2022, yn cael ei weithredu.

(2) Rhaid i ddeiliad yr awdurdodiad gyflwyno adroddiadau blynyddol i'r Awdurdod Diogelwch Bwyd ar weithredu'r cynllun monitro ynghyd â chanlyniadau'r gweithgareddau a nodir ynddo yn unol â'r fformat a nodir yn Atodiad II o Benderfyniad 2009/770/EC.

Deiliad yr awdurdodiad

6. (1) Enw a chyfeiriad deiliad yr awdurdodiad yw Corteva Agriscience LLC, 9330 Zionsville Road, Indianapolis, Indiana 46268-1054, USA.

(2) Cynrychiolir deiliad yr awdurdodiad ym Mhrydain Fawr gan Corteva Agriscience UK Limited, Unit H4, Building H Melbourn Science Park, Cambridge Road, Melbourn, Swydd Gaergrawnt, SG8 6HB.